MEHEFIN A GORFFENNAF 2025

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## IOGA GYDA JESS



Rydym wedi mwynhau sesiynau ioga gyda Jess ar foreau dydd Mawrth yn ddiweddar. Mae Jess wedi bod yn cymryd sesiynau gyda'r dau ddosbarth fel rhan o'i chwrs 'Ioga gyda phlant'. Diolch yn fawr iddi.



## JAMBORI'R URDD

Cawsom hwyl a sbri wrth ymuno gyda Jambori'r Urdd i ddathlu tîm merched Cymru yn yr Ewros. Roedden ni'n teimlo'r balchder a'r cyffro dros Dîm Merched Cymru!



diogelwchffyrdd roadsafety

Llongyfarchiadau enfawr i

Ysgol Dyffryn Dulas

am ennill gwobr EFYDD am gymryd rhan mewn her "Wythnos Cerdded i'r Ysgol"

Dyddiad: 23/5/2025

Tystysgrif EFYDD

## WYTHNOS CERDDED I'R YSGOL

Cymerwyd rhan yn yr 'Wythnos Cerdded i'r Ysgol' rhwng 12fed o Fai a 16eg o Fai.

Yn yr her 'Teithio Llesol' derbyniodd yr sygol dystysgrif Efydd, oedd yn cael ei gyflwyno i'r Ysgolion pan mae rhwng 30% a 49% o ddisgyblion wedi cerdded, sgwtera neu seiclo i'r ysgol.

# YMWELIAD I LLANYSTUMDWY

Aethom i Lanystumdwy i ymweld ag amgueddfa Lloyd George a dysgu am yr ysgol ers talwm. Roedd bechgyn a merched yn eistedd ar wahan yn yr ysgol ers talwm. Roedd bechgyn yn fwy pwysig na'r merched. Dim ond bechgyn oedd yn cael helpu'r athro. Roedd yn rhaid ateb yr athro drwy ddweud 'Yes Sir'. Roedd rhaid siarad Saesneg drwy'r amser, hyd yn oed ar amser chwarae. Os oeddech yn cael eich dal yn siarad Cymraeg roedd yn rhaid gwisgo'r Welsh Not. Roedd plant yn ysgrifennu ar lechen ac yn golchi'r ysgrifen i ffwrdd efo poer - ych-a-fi! Roedd yn rhaid ysgrifennu efo eich llaw dde. Roedd plant yn cael eu cosbi efo'r gansen.

gan Maxwell, Gruff, Elsie a Barney.















# EISTEDDFOD YR URDD





Llongyfarchiadau mawr i Anya ar berfformiad swynol iawn ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Malgam. Rydym yn falch iawn o Anya mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn ar yr Unawd Gitar Blwyddyn 6 ac iau. Da iawn wir a hithau ym Mlwyddyn 4.

Llongyfarchiadau mawr i Elsie, Gruff a Anya ar ei llwyddiant yn y cystadlaethau Celf a Chrefft diweddar. Mae'r tri wedi derbyn eu tystysgrifau erbyn hyn.

# TWRNAMENT HOCI



Dydd Gwener olaf mis Mehefin, cynhaliwyd Gwyl Hoci ar gyfer y dalgylch yn Nhywyn. Diolch yn fawr i Lynda Williams, Ysgol Penybryn am drefnu'r digwyddiad yma.

# DATHLU 70 MLYNEDD

Cawsom ddiwrnod llwyddiannus yn yr ysgol prynhawn dydd Sadwrn, 21ain o Fehefin yn dathlu 70 mlynedd ers agor yr ysgol. Roedd hi'n braf gweld gymaint o gyn-ddisgyblion, cyn-rieni, chyn-athrawon a Phenaethiaid a'r gymuned wedi dod atom i ddathlu'r achlysur. Bu pawb yn pori drwy hen luniau dros baned a chacen.
Cyn y diwrnod daeth Mr Martin Jones (rhiant yr ysgol) i recordio'r disgyblion yn gwneud fideo 70 ar iard yr ysgol. Roedd hyn yn dipyn o hwyl! Hefyd, bu Geth Tomos (Cerdd Amdani) yn cyfansoddi cân yr ysgol gyda'r plant hyn a'u perfformio fel ysgol gyfan. Mwynhawyd y perfformiadau yn ystod y prynhawn.
Bu Ffrindiau'r Ysgol yn brysur iawn cyn y diwrnod yn gwerthu'r Raffl Fawr gyda gwobrau arbennig. Diolch yn fawr i staff a Ffrindiau'r Ysgol am drefnu'r digwyddiad arbennig yma a chodi swm arbennig o tua £3700 tuag at brynu adnoddau gwerthfawr i'r ysgol.







## PAID CYFFWRDD DWEUD

Daeth Dean Raymond o sioe 'Paid cyffwrdd dweud' gan Adferaid atom un prynhawn. Peidiwch â Chyffwrdd – Dweud a Peidiwch ag Yfed, Meddwl yw rhaglen addysg cyffuriau ac alcohol arbenigol, sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer plant oedran cynradd yng Ngogledd Cymru. Cyflwynwyd negeseuon effeithiol i'r disgyblion trwy amrywiaeth o gyfryngau, gan eu meithrin â'r hyder sydd ei angen arnynt i gadw eu hunain yn ddiogel.
Cafwyd sioe 'Paid Cyffwrdd dweud' i blwyddyn 1 a 2, a sioe 'Paid meddwi meddylia' i blwyddyn 3,4,5 a 6.

## RNLI





Diolch i RNLI am ddod i'r ysgol i drafod diogelwch y dwr gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig iawn bod y disgyblion yn dysgu am ddiogelwch ar y mor. Nod y sesiynau yw rhoi dealltwriaeth i ddisgyblion o ddiogelwch dŵr a'u galluogi i adnabod problemau a allai ddigwydd mewn, ar ac o amgylch dŵr.
Mae'r sesiwn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beth i'w wneud os ydyn nhw mewn trafferth neu os ydyn nhw'n gweld rhywun arall mewn trafferth





## MARCHOGAETH

Llongyfarchiadau mawr i Leia Jones ar ei llwyddiant gyda Grwp Marchogaeth Arbennig Meirionnydd dechrau mis Gorffennaf. Mae Leia yn mynychu'r sesiynau yn wythnosol ac rydym yn falch iawn o'i llwyddiant.

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## TRIP YSGOL

Mwynhaodd ein disgyblion daith ysgol wych i Fferm Park Hall gyda disgyblion Ysgol Pennal.
O'r eiliad y cyrhaeddon ni, roedd y plant yn llawn cyffro. Croesawyd nhw'n gynnes ac aethon nhw'n syth i mewn i ystod o weithgareddau ymarferol. Cafodd y disgyblion gyfle i fwydo ŵyn, cwrdd â'r merlod, a dal y cwningod. Roedd y daith dractor drwy'r caeau yn uchafbwynt arbennig—llawer o chwerthin a syndod wrth i ni weld defaid, moch, a hyd yn oed ychydig o eifr chwilfrydig. Mwynhaodd pawb eu picnic a'r ardal chwarae meddal! Ar ôl cinio, roedd cefnogi'r moch yn ystod y ras foch yn hwyl i bawb.



















# ATHLETAU'R URDD



Llongyfarchiadau i ddisgyblion y Ffederasiwn  ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Athletau'r Urdd yn Harlech un noson braf diwedd Gorffennaf. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.






Ras 80m Bechgyn Bl.3
2ail - Curig Breese
Ras 80m Merched Bl.3
3ydd – Elain Puw
Ras 80m – Merched Bl.4
2ail - Melys Morus-Baird
Ras 80m – Merched Bl.5
3ydd - Grace Hussain
Naid Hir Merched Bl.3
1af - Elain Puw
Taflu Gwaywffon Merched Bl.4
1af - Melys Morus-Baird Ffe
Taflu Gwaywffon Bechgyn Bl.5
2ail - Otis Jones , 3ydd - Leafin Onnen
Taflu Shot Merched Bl.4
2ail - Melys Morus-Baird
Taflu Shot Bechgyn Bl.5
2ail - Tomos Parry









# RASIO'R TREN







Nos Wener, 11eg o Orffennaf cawom noson ‘Rasio’r Trên’ llwyddiannus eto blwyddyn yma.
Diolch i Ffrindiau’r Ysgol am drefnu’r digwyddiad yma bob blwyddyn.
Bu’r disgyblion yn mwynhau’r rasio gyda’r trên a hufen iâ ar y diwedd.
Yna, roedd cwn poeth a gemau yn neuadd yr ysgol.





# PC SION A PC DELYTH



Diolch i PC Sion a PC Delyth am alw heibio un pnawn braf i ddangos y fan heddlu.
Cawsom gyfle i eistedd yn y fan heddlu (y cefn a'r tu blaen) a chyfle i drafod gwaith yr heddlu o ddydd i ddydd.






# SESIYNAU BEICIO CYNNAR

Yn ystod wythnosau ola'r tymor bu Rikki Barrat yn cynnal sesiynau hyfforddiant beicio ar ôl ysgol gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol.
Diolch iddo am drefnu'r sesiynau yma.



# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

## HWYL FAWR BLWYDDYN 6

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn ysgol wych arall, rydym yn ffarwelio gyda Idris, Zahra a Malo ac yn dymuno pob lwc iddynt yn Ysgol Uwchradd Tywyn.

Rydym hefyd yn ffarwelio gyda Dylan Evans, Maxwell Greenwood-Dunn, ac Alfie a Margo Fenner. Rydym yn dymuno pob lwc iddynt yn ei hysgolion newydd yn mis Medi.





Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn paratoi diwrnod hwyl ar gyfer disgyblion yr ysgol ar Ddydd Mawrth ola'r tymor.

Diolch i Mrs Jones (Cogyddes) am baratoi bwyd parti ar ein cyfer ar y dydd Mawrth olaf.

# MABOLGAMPAU








Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ffederasiwn yn yr ysgol a bum yn lwcus iawn o'r tywydd eleni. Daeth disgyblion Ysgol Pennal atom am y diwrnod a cawsom llawer o hwyl yn cymryd rhan yn gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Roedd yna dipyn o gystadleuaeth rhwng y tri dim a daeth tim Sychan yn gyntaf eleni.







